

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL
(MEMORANDWM RHIF 3)**

Y BIL DIOGELWCH AR-LEIN

1. Cafodd y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn ei osod o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2 (iii). Mae RhS29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ac y gellir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n diwygio'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Diogelwch Ar-lein ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Mawrth 2022 ac mae'n cael ei ystyried ar hyn o bryd yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin, a ddechreuodd ar 12 Gorffennaf. Nid yw ail eisteddiad Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin wedi'i drefnu eto.
3. Mae'r Bil (fel y'i diwygiwyd ar ôl i Bwyllgor Tŷ'r Cyffredin ei ystyried, a'i gyhoeddi ar 28 Mehefin) a'r gwelliannau perthnasol a gyhoeddwyd i'w gweld yn: <https://bills.parliament.uk/bills/3137>. Mae'r holl welliannau a gyflwynwyd ar 26 Hydref a 28 Hydref, gan gynnwys gwelliannau Llywodraeth y DU a nodir yn yr LCM atodol hwn, i'w gweld yn [onlinesafety_rm_rep_1026.fm \(parliament.uk\)](https://onlinesafety_rm_rep_1026.fm(parliament.uk)):

Amcan(ion) Polisi

4. Amcan polisi datganedig Llywodraeth y DU yw sefydlu trefn reoleiddio newydd i fynd i'r afael â deunydd anghyfreithlon a niweidiol ar-lein, gyda'r nod o atal unigolion rhag cael eu niweidio, gan wneud y DU y lle mwyaf diogel yn y byd i fod ar-lein.
5. Ar hyn o bryd, nid yw'r rhan fwyaf o wasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr a chwilio sy'n cael eu gweithredu yn y Deyrnas Unedig yn destun unrhyw reoleiddio o ran diogelu defnyddwyr. Mae'r Bil yn gosod gofynion cyfreithiol ar:
 - a) Ddarparwyr gwasanaethau'r rhynggrwyd sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ddod ar draws deunydd sy'n cael ei gynhyrchu, ei lanlwytho neu ei rannu gan ddefnyddwyr eraill, h.y. deunydd a gynhyrchir gan ddefnyddwyr ("gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr").
 - b) Darparwyr peiriannau chwilio sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio gwefannau a chronfeydd data ("gwasanaethau chwilio").
 - c) Darparwyr gwasanaethau rhynggrwyd y cyhoeddir neu y dangosir deunydd pornograffig arnynt.

6. Mae'r Bil yn rhoi pwerau newydd i'r Swyddfa Gyfathrebu (OFCOM) gan eu galluogi i weithredu fel y rheoleiddiwr diogelwch ar-lein.

Crynodeb o'r Bil

7. Noddir y Bil gan yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).
8. Mae'r Bil yn cyflwyno trefn reoleiddio newydd a fydd yn gosod gofynion cyfreithiol ar ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ddod ar draws deunydd sy'n cael ei gynhyrchu, ei lanlwytho neu ei rannu gan ddefnyddwyr eraill ac ar beiriannau chwilio sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio gwefannau a chronfeydd data. Bydd yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau a reoleiddir:
 - a) Asesu eu defnyddwyr a'r risgiau o niwed i'r defnyddwyr y gall yr hyn sy'n bresennol ar y gwasanaeth eu peri;
 - b) Cymryd camau i liniaru a rheoli'r risgiau o niwed i unigolion sy'n deillio o ddeunydd a gweithgarwch anghyfreithlon, ac (ar gyfer gwasanaethau y bydd plant yn debygol o allu cael mynediad iddynt) deunydd a gweithgarwch sy'n niweidiol i blant;
 - c) Rhoi systemau a phrosesau ar waith sy'n caniatáu i ddefnyddwyr a phersonau yr effeithir arnynt roi gwybod am fathau penodedig o ddeunydd a gweithgarwch i ddarparwr y gwasanaeth;
 - d) Creu gweithdrefn gwyno dryloyw a hawdd ei defnyddio sy'n caniatáu gwneud cwynion o fathau penodedig;
 - e) Rhoi sylw i bwysigrwydd diogelu hawliau cyfreithiol defnyddwyr i ryddid mynegiant a diogelu defnyddwyr rhag torri eu hawl gyfreithiol i breifatrwydd wrth roi polisïau a gweithdrefnau diogelwch ar waith;
 - f) Rhoi systemau a phrosesau ar waith sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod deunydd sy'n ecploetio ac yn cam-drin plant yn rhywiol yn cael ei adrodd i'r Asiantaeth Troseddu Genedlaethol (NCA).
9. Rhoddir gofynion cyfreithiol ychwanegol ar wasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr sy'n bodloni amodau trothwy a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r rhain yn cynnwys nodi mewn geiriau clir sut y bydd deunydd cyfreithiol ond niweidiol i oedolion yn cael ei drin a'i asesu a chyhoeddi'r camau a gymerir i ddiogelu hawliau cyfreithiol defnyddwyr i ryddid mynegiant a phreifatrwydd defnyddwyr.
10. Bydd dyletswydd ar wasanaethau chwilio sy'n bodloni amodau trothwy ychwanegol i gynhyrchu adroddiadau tryloywder blynyddol ac i roi systemau a phrosesau cymesur ar waith i atal y risg y daw defnyddwyr ar draws hysbysebion twyllodrus.
11. Bydd OFCOM yn gyfrifol am orfodi'r gofynion cyfreithiol a osodir ar ddarparwyr gwasanaethau. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i OFCOM gynhyrchu codau ymarfer ar gyfer darparwyr gwasanaethau, gan nodi'r camau a argymhellir y gall darparwyr eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r

gofynion cyfreithiol. Mae'r pwerau newydd a roddir i OFCOM yn cynnwys y pŵer i roi hysbysiadau gorfodi a gosod cosbau ariannol.

12. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i ddarparwyr gwasanaethau rhyngryd y ceir deunydd pornograffig arnynt (yn hytrach na'r rheini sy'n galluogi defnyddwyr i gynhyrchu neu rannu deunydd o'r fath) sicrhau nad yw plant fel arfer yn gallu dod ar draws y deunydd pornograffig hwnnw.
13. O fewn y Bil, disodlir troseddau cyfathrebu perthnasol o dan Ddeddf Cyfathrebu 2003 gan dair trosedd gyfathrebu newydd: trosedd gyfathrebu niweidiol, trosedd gyfathrebu ffug, a throsedd gyfathrebu fygythiol, yn ogystal â chreu trosedd newydd sy'n ymwneud â delweddau sy'n fflachio, neu 'trolloio epilepsi' fel y'i gelwir weithiau, ac a ddisgrifir yn yr LCM atodol hwn.

Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol blaenorol (Memorandwm Rhif 2)

14. Gosododd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd LCM ar 30 Mawrth, yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd i Senedd y DU ar 17 Mawrth.
15. Cadarnhaodd yr LCM fod y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn fodlon gosod LCM mewn perthynas â chymal 175(5) a pharagraff 10 a Rhan 2 o Atodlen 1, i'r graddau y mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â Chymru.
16. Ar 8 Awst, cadarnhaodd Llywodraeth y DU ar ôl trafod pellach, ei bod bellach wedi ystyried y gallai fod angen cydsyniad deddfwriaethol ar ddarpariaethau o fewn Rhan 10 o'r Bil (troseddau cyfathrebu).
17. Ar 28 Medi gosodais LCM atodol mewn perthynas â chymalau 151-153 a 156 o Ran 10 o'r Bil (troseddau cyfathrebu).
18. Ar 26 Hydref, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliant (NC41) i Ran 10 o'r Bil, **Offences of sending or showing flashing images electronically: England and Wales.**
19. Ar 28 Hydref, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliant (NC13) i Ran 10 o'r Eithriadau Bil **Exemptions from offences under sections 151 and 152.**
20. Bydd y gwelliannau yn cael eu hystyried yn ail eisteddiad y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, er nad yw hyn wedi'i drefnu eto.
21. Ar ôl dadansoddi'n gyfreithiol oblygiadau'r drosedd newydd hon i Gymru, (Troseddau anfon neu ddangos delweddau sy'n fflachio'n electronig), rwyf o'r farn bod angen gosod yr LCM atodol hwn gerbron Senedd Cymru, am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 22 i 30 isod.

Darpariaethau ychwanegol yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

22. Mae angen cydsyniad Senedd Cymru ar gyfer y ddarpariaeth ychwanegol sydd wedi ei chynnwys yn y Bil:

Gwelliant NC41– Troseddau am anfon neu ddangos delweddau sy'n fflachio'n electronig: Cymru a Lloegr

23. Mae'r cymal newydd hwn, a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig fel gwelliant ar 26 Hydref, yn creu trosedd am anfon neu ddangos delweddau sy'n fflachio i unigolion y mae'n hysbys bod ganddynt epilepsi. Rhaid ei bod yn fwriad gan y naill i'r llall ddiodeff niwed heb esgus rhesymol. Mae'r ddarpariaeth yn y Bil yn cynnwys ymosodiadau sy'n targedu unigolion, ac ymosodiadau sy'n targedu grwpiau fel y Gymdeithas Epilepsi. Byddai'r drosedd yn cynnwys, er enghraifft, postio delweddau sy'n fflachio i blatfformau cyfryngau cymdeithasol, neu anfon neges yn uniongyrchol at y derbynnydd trwy, er enghraifft, WhatsApp, e-bost, neu neges uniongyrchol ar sianel cyfryngau cymdeithasol. Byddai'r drosedd hefyd yn cynnwys unigolyn sy'n dangos delwedd sy'n fflachio i un arall yn uniongyrchol, er enghraifft drwy ddal ffôn symudol gyda'r bwriad bod unigolyn sydd ag epilepsi ffotosensitif sy'n gweld y delweddau hynny yn cael trawiad o ganlyniad.

24. Mae'r ddarpariaeth newydd hon yn y Bil yn creu'r ddwy drosedd ganlynol:

- (i) Mae'r gyntaf, sydd wedi'i chynnwys yn isadran (1), yn creu trosedd am 'anfon' cyfathrebiad ar ffurf electronig ag ynddo neu sy'n cynnwys delweddau sy'n fflachio. Delweddau yw'r rheini sydd â'r risg y byddai unigolyn ag epilepsi ffotosensitif sy'n gweld y delweddau hynny yn diodeff trawiad o ganlyniad; ac
- (ii) Mae'r ail, sydd wedi'i chynnwys yn isadran (8), yn creu trosedd bod person yn 'dangos' delweddau sy'n fflachio drwy gyfrwng dyfais gyfathrebu electronig.

25. Mae Trosedd 2 (isadran (8)) yn cynnwys 'dangos' cyfathrebiad electronig. Er bod gwasanaethau'r rhyngwrwd, gwasanaethau post, a thelegyfathrebu yn faterion cadw, mae gan Senedd Cymru'r cymhwysedd i ddeddfu mewn perthynas â mathau eraill o gyfathrebu. Felly, mae angen caniatâd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Gwelliant NC13 – Eithriadau i droseddau o dan adrannau 151 a 152

26. Mae'r gwelliant hwn, a gyflwynwyd ar 28 Hydref, yn cynnwys eithriadau i'r troseddau cyfathrebu niweidiol a ffug o dan gymalau 151 a 152. O dan welliant NC41 (isadran (5)), bydd yr eithriadau hyn hefyd yn berthnasol i'r drosedd delweddau sy'n fflachio y cyfeirir ati ym mharagraffau 23-26 uchod.

27. Gan fod yr eithriadau hyn yn berthnasol i fathau o gyfathrebu sydd o fewn ei chymhwysedd, mae angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru.

Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

28. Barn Llywodraeth y DU yw bod y ddarpariaeth newydd hon yn y Bil yn sbarduno'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Diogelwch Ar-lein

29. Mae'r darpariaethau yn y Bil, sy'n gosod dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaethau rhynggrwyd mewn perthynas â diogelwch ar-lein ac yn rhoi pwerau a gosod dyletswyddau ar OFCOM, yn ymwneud â mater cadw sef "gwasanaethau rhynggrwyd."
30. Mae diogelwch a lles pobl yn gyfrifoldeb ar y cyd ac yn ddyletswydd ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Rydym yn cydnabod mai Bil ar lefel y DU yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur i reoleiddio darparwyr rhynggrwyd gyda chysondeb a fydd yn amddiffyn pobl Cymru.
31. Rwy'n croesawu bwriad Llywodraeth y DU i'r Bil wneud y DU y lle mwyaf diogel yn y byd i fod ar-lein gan sicrhau hefyd bod pobl yn gallu mwynhau eu hawl i ryddid mynegiant. Rwy'n falch bod y Bil yn cydnabod bod angen cryfhau'r amddiffyniad i blant a phobl ifanc. Rwy'n credu'n gryf bod diogelu yn gyfrifoldeb ar y cyd ac yn croesawu'r dyletswyddau a roddir ar ddarparwyr ar-lein i weithredu a chryfhau'r amddiffyniad rhag gweithgareddau sy'n bygwth diogelwch defnyddwyr.

Goblygiadau ariannol

32. Nid oes goblygiadau ariannol i Gymru mewn perthynas â'r Bil.

Casgliadau

33. Fy marn i yw ei bod yn briodol gosod LCM atodol, mewn perthynas â'r darpariaethau o fewn Rhan 10 o'r Bil sy'n ymwneud â'r troseddau o anfon neu ddangos delweddau sy'n fflachio'n electronig, am y rhesymau a roddir ym mharagraff 25 uchod a hefyd yr eithriadau o fod yn drosedd o dan adrannau 151 a 152, fel y'u disgrifir ym mharagraffau 26-27 uchod.
34. Rwy'n argymhell bod Senedd Cymru'n cefnogi'r cynnig ac yn rhoi ei chydsyniad.

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi
8 Tachwedd 2022